Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Conwy
# Ysgol Porth Y Felin
# Ffordd Llanrwst
# Conwy
# LL32 8FZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 18/05/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Feithrin Conwy yn cyfarfod mewn caban ar dir Ysgol Porth-y-Felin, yng Nghonwy. Mae’r lleoliad yn agor am bum bore’r wythnos rhwng 8.40am a 11.10am.

Mae wedi’i gofrestru i dderbyn hyd at 18 o blant ar unrhyw adeg benodol. Ar hyn o bryd, mae 10 o blant tair oed yn derbyn addysg wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol yn y lleoliad.

Mae bron pob un o’r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o’r plant sy’n mynychu’r lleoliad sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd yn ei rôl yn y lleoliad yn Ionawr 2014. Mae pedwar ymarferydd amser llawn yn goruchwylio’r lleoliad ac mae ganddynt gymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant bach.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Chwefror 2015. Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn flaenorol ym Mehefin 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig ac awyddus
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn poeni ynghylch teimladau plant eraill
- Mae profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda
- Mae addysgu effeithiol yn herio plant i wella eu gwaith yn gyson
- Mae asesiadau yn symud plant ymlaen yn effeithiol at y camau nesaf yn eu dysgu
- Ceir perthnasoedd cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- Mae amgylchedd dysgu ysgogol yn ennyn diddordebau'r plant yn llwyddiannus
- Mae staff yn gweithio'n ddyfal â'i gilydd i wella deilliannau plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer gwaith y lleoliad
- Ceir systemau hunanarfarnu rheolaidd ac effeithiol
- Mae ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant
- Gwneir defnydd effeithlon o'r gwasanaethau cymorth
- Ceir cefnogaeth weithredol gan y pwyllgor rheoli
- Mae perthynas effeithiol gyda rhieni a'r ysgol leol
- Mae adnoddau pwrpasol ar gael i bob plentyn
- Mae defnydd synhwyrol o gyllid yn sicrhau gwelliannau mewn darpariaeth, yr amgylchedd dan do a'r ardaloedd awyr agored

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau grŵp yn cyfateb i oedrannau a galluoedd y plant yn briodol

A2 Darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu'u hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd

A3 Sicrhau bod arferion sicrhau ansawdd y pwyllgor rheoli yn drylwyr a chadarn

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cyson ac yn dangos medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol o fannau cychwyn disgwyliedig a mannau cychwyn uwchlaw'r cyfartaledd o bryd i'w gilydd. Mae hyn i'w weld yn amlwg pan fyddant yn cwblhau tasgau bob dydd a thasgau mwy cymhleth yn llwyddiannus.

Mae llawer o blant yn mynegi'u teimladau a'u hemosiynau yn dda wrth chwarae rôl yn y caffi. Maent yn cynnal sgyrsiau synhwyrol gydag oedolion a'i gilydd am lyfrau ar glustogau yn y gornel ddarllen. Mae llawer o blant yn trafod yn gydlynus y gwahaniaethau rhwng anifeiliaid amrywiol o amgylch y byd, fel eliffantod, sebraod a jiraffod. Hefyd, maent yn cydweithio'n dda mewn chwarae gweithredol wrth fynd ar gefn treisiclau o amgylch yr iard a phan fyddant yn llenwi cynwysyddion o gasgen ddŵr i'w arllwys i mewn i gafnau yn yr ardal awyr agored.

Mae rhan fwyaf y plant yn siarad yn glir ac yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant eraill yn eu deall wrth ymateb i farnau ei gilydd yn ystod gweithgareddau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan eraill ac yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fyddant yn defnyddio rhifau wedi'u printio ar geir tegan o feintiau gwahanol i'w parcio yn y garej gywir, a phan fyddant yn printio patrymau paent ar gerdyn i gynrychioli crwyn anifeiliaid.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion. Maent yn trin y llyfrau fel darllenwyr naturiol a hamddenol yn yr ardal ddarllen sy'n cynnwys adnoddau da. Mae llawer o blant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn dda. Maent yn ymateb yn synhwyrol i gynnwys y stori. Mae llawer ohonynt yn trafod eu teimladau'n glir, er enghraifft wrth ystyried sut mae rhai anifeiliaid, fel mwncïod a nadroedd, yn gwneud iddynt deimlo. Fodd bynnag, mae ychydig o blant iau yn ymddieithrio ar adegau yn ystod gweithgareddau grŵp, ac mae hyn yn effeithio'n niweidiol ar ganolbwyntio plant eraill.

Mae lleiafrif o blant yn defnyddio iaith soffistigedig yn bwrpasol mewn chwarae digymell a strwythuredig. Mae hyn yn digwydd pan fyddant yn cymysgu ewyn a thywod â'i gilydd gyda chwisgiau i ffurfio llociau anifeiliaid, ac yn rhoi edau drwy riliau cotwm mewn dilyniant lliwiau i greu neidr.

Mae llawer o blant yn gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc, creonau, pensiliau a phennau. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau plant eraill yn gywir yn ystod tasgau cofrestru. Mae ychydig o blant yn ceisio ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol a gellir eu hadnabod yn rhesymol. Mae mwyafrif y plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destun cywir wrth sgriblo a thynnu siapiau a llinellau ar fyrddau sialc ac wrth ysgrifennu llythyrau at y sw.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn bwrpasol ac mewn cyd-destunau perthnasol. Mae rhan fwyaf y plant yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus, ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn hawdd, wrth gyfrif pennau yn ystod amser cylch.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Maent yn cyfrif reis lliw yn gywir wrth iddynt eu casglu gyda gefel fach, ac maent yn casglu'r nifer cywir o ddinosoriaid o gynhwysydd dŵr mewn parau a grwpiau. Hefyd, mae ychydig o blant yn adnabod rhifau trefnol, gyda chymorth oedolyn, o 'cyntaf' hyd at 'wythfed' wrth ddilyniannu anifeiliaid yn y drefn gywir mewn llyfrau darllen.

Mae llawer o blant yn deall gwahaniaethau mewn uchder hefyd wrth iddynt drafod newid onglau trac i gynyddu neu leihau cyflymder car tegan. Maent hefyd yn grwpio mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir. Mae llawer o blant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn dda. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys creu nadroedd gan ddefnyddio glud a phapur patrwm wrth adeiladu blociau tŵr yn yr ardal adeiladu.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu'u Cymraeg yn briodol, gan ystyried eu cefndir ieithyddol. Mae llawer o blant yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn Gymraeg, ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio Cymraeg achlysurol heb anogaeth gan oedolyn wrth gyfrif a nodi lliwiau. Mae rhan fwyaf y plant yn canu hwiangerddi a chaneuon yn Gymraeg yn frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig a chamerâu. Maent hefyd yn defnyddio meddalwedd addysgol ar y llechi i ddatblygu'u medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau meddwl da, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Gweithiant yn ddeallus gyda rhai eraill wrth iddynt archwilio cynwyseddau gwahanol gynwysyddion, gan benderfynu p'un a yw bwcedi tywod yn 'llawn', 'hanner llawn' neu'n 'wag' wrth adeiladu cestyll tywod yn yr ardal awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar gerddoriaeth gyda mwynhad ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn chwarae offerynnau taro ar y cyd mewn gweithgareddau cerddorfa pan fyddant yn eistedd gyda'i gilydd, ac maent yn symud yn rhythmig i'r gerddoriaeth a grëir. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'u medrau corfforol yn llwyddiannus wrth iddynt reidio o amgylch mannau agored yn llawn egni ar dreisiclau, a dringo, hongian a chropian yn anturus ar gyfarpar awyr agored yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae rhan fwyaf y plant yn dangos lefelau da o ymgysylltu yn ystod eu tasgau. Mae ychydig o blant iau yn colli diddordeb mewn gweithgareddau grŵp mawr, ond maent yn mwynhau'r gweithgareddau a ddarperir ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. O ganlyniad, mae'r

rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel pan fyddant yn rholio cylchau ac yn cicio peli troed at ei gilydd ar iard yr ysgol.

Mae bron pob un o’r plant yn foesgar ac yn ymddwyn yn dda.  Dangosant barch at oedolion a’i gilydd.  Mae bron pob plentyn yn gwrando’n ofalus ar ymarferwyr, fel pan fyddant yn paratoi coffis i fynd allan yn y caffi chwarae rôl, ac wrth gydweddu siapiau â rhifau ar fwrdd pegiau.

Ar ôl defnyddio’r toiled, chwarae anniben a gweithgareddau awyr agored, mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr heb lawer o anogaeth gan oedolion. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth addas o hylendid da.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dechrau deall y gallant wneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd.  Mynegant farnau a dewisiadau personol, fel pan fyddant yn penderfynu symud o un ardal chwarae i un arall yn annibynnol, tu mewn i’r adeilad ac yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael.  Mae llawer o blant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.  Mae hyn yn arbennig o amlwg pan fydd llawer ohonynt yn esbonio’n synhwyrol wrth ei gilydd, heb lawer o gyfranogiad gan oedolion, pam y maent yn ysgrifennu llythyrau at y sw a pham mae angen dyfrhau hadau er mwyn iddynt dyfu’n llysiau.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae profiadau dysgu yn targedu anghenion a diddordebau plant yn bwrpasol ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddod yn ddysgwyr annibynnol.  Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang sy’n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.  Mae ymarferwyr yn gweithio’n gydlynus â’i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol ac ysgogol sy’n cymell plant i ddysgu’n ymarferol ac yn greadigol.  Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, medrau meddwl a medrau creadigol plant yn ddeallus, er enghraifft, drwy ganiatáu iddynt ddringo ar gyfarpar antur yr ysgol, defnyddio offer cegin fel offerynnau cerdd yn yr ardd a chreu eu toes eu hunain mewn grwpiau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu yn drylwyr.  Maent yn trafod asesiadau plant unigol yn rheolaidd, ac yn trefnu gweithgareddau ac yn canolbwyntio tasgau ar sail hyn.  Mae plant hŷn yn cynnig eu syniadau personol er mwyn cyfoethogi gweithgareddau mwy fyth.  Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at eu brwdfrydedd dyddiol wrth ddysgu drwy chwarae, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae’r lleoliad yn cynllunio’n fanwl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl plant.  Mae tasgau llythrennedd a rhifedd i’w gweld yn amlwg yn yr holl feysydd dysgu ac maent yn herio’r plant i berfformio ar eu gorau yn gyson.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd heriol i blant ddechrau dysgu medrau tasgau ysgrifennu soffistigedig, fel cyfansoddi llythyrau ac ysgrifennu cyfeiriadau ar amlenni. Mae gweithgareddau fel y rhain yn adeiladu’n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol plant.  Mae profiadau ysgogol o’r fath yn cynnig parhad a dilyniant yn

nysgu'r plant. Maent hefyd yn cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda hadau a phridd yn yr ardal awyr agored, a defnyddio tiliau ac arian yn y caffi.

Mae'r lleoliad yn cydnabod bod medrau Cymraeg y rhan fwyaf o blant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yno. Aiff ymarferwyr i'r afael â hyn yn effeithiol drwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau ac ymadroddion syml yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y plant o'r iaith yn datblygu'n briodol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn mae dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Dydd Santes Dwynwen, ymweld â chastell Conwy a phobi bara a chacennau traddodiadol.

Darperir cyfleoedd effeithiol gan y lleoliad i blant ddefnyddio offer TGCh fel tiliau, teganau electronig a llechi, chwaraewr disgiau cryno a chamerâu. Cynigir cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu'u medrau TGCh yn llawn, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol yn bwrpasol ar y llechi.

Gwna'r lleoliad ddefnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymweliadau â'r gymuned leol i ymweld â becws, y parc lleol, teithiau i safle'r castell gerllaw a theithiau cerdded rheolaidd i'r dref. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys y gwasanaethau brys, llyfrgellydd a staff ysgol, yn addysgu'r plant yn bwrpasol ynglŷn â rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth ddiweddar gan yr holl ymarferwyr am ddatblygiad plant ac maent yn dîm profiadol o weithwyr ymroddedig. Maent yn wybodus iawn ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen a gweithiant yn effeithiol â'i gilydd. Mae disgwyliadau uchel gan ymarferwyr ar gyfer pob plentyn ac maent yn herio plant yn rheolaidd yn yr holl dasgau â ffocws. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell yn llawn. Mae system gweithiwr allweddol y lleoliad yn effeithiol ac yn targedu anghenion plant unigol yn dda.

Caiff y plant eu cyfarch yn gynnes ac yn frwdfrydig gan ymarferwyr wrth iddynt gyrraedd, ac maent yn cynnal y brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Mae'r arweinydd ac ymarferwyr eraill yn sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blant a'r rheini a arweinir gan oedolion. Maent yn deall pwysigrwydd darparu ystod eang o gyfleoedd i ddysgu drwy chwarae, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn annog plant yn bwrpasol i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw gweithgareddau grŵp yn cynnal diddordebau plant iau, a gall hyn effeithio ar ddysgu a sylw'r plant hŷn yn anffafriol.

Defnyddir holi gan ymarferwyr yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu plant. Mae hyn i'w weld yn amlwg wrth drafod pwysigrwydd dŵr i dyfu hadau mewn potiau, a sut i ddefnyddio gefell yn effeithiol i rannu nwdls.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn trafod ac yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd ac yn gyson, ac maent yn annog plant i asesu eu dysgu eu hunain. Maent yn herio plant yn synhwyrol ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Mae ymarferwyr yn cofnodi arfarniadau yn drylwyr yn ystod tasgau â ffocws, ac yn nodi arsylwadau anffurfiol yn gydwybodol mewn llyfrau nodiadau unigol. Mae hyn yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio tasgau a thargedau plant yn y dyfodol yn effeithlon.

Mae ymarferwyr yn mynd i'r afael â'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn llwyddiannus. O ganlyniad, ceir gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant. Mae'r holl dystiolaeth yn cyfateb yn dda i ddeilliannau plant unigol wrth iddynt aeddfedu yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn ystod y cyfnod trosglwyddo ar ddiwedd y sesiwn. Atgyfnerthir hyn gan bolisi drws agored ac mae ymarferwyr ar gael i siarad â rhieni a gofalwyr pan fo angen.

Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae llyfryn cynhwysfawr o luniau, gwaith ac anodiadau diddorol ar gael i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Defnyddir sesiynau grŵp yn dda gan ymarferwyr i ganolbwyntio ar deimladau plant a'r modd y maent yn trin pobl eraill. Drwy wneud hynny, mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol. Mae'r arferion dyddiol hyn yn atgyfnerthu eu pwysigrwydd a'r modd y maent yn fuddiol i weithgareddau'r lleoliad.

Ceir trefniadau effeithlon yn y lleoliad i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau a llysiau yn rhan bwysig o ddeiet synhwyrol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo bob dydd. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i'r plant eistedd i wrando ar oedolion, ymarfer golchi eu dwylo a dweud diolch am eu bwyd. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro yn gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd bwyta. Caiff helpwr y dydd gyfle i helpu'n bwrpasol wrth baratoi byrbrydau a diodydd. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r plant yn oddefol yn ystod amser byrbryd, ac nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt weini a chynorthwyo ei gilydd er mwyn datblygu'u hannibyniaeth.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddu neu ymddygiad gormesol. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn aml yn gofyn am help a chymorth heb bryderu. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel a chymer ymarferwyr ofal da o'r plant pan fyddant yn

cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drylwyr pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac maent yn nodi'u mannau cychwyn yn drwyadl gan ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cydweddu'n dda â'r prosesau asesu a chynllunio, ac mae ymarferwyr yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol er mwyn darparu cymorth cyn gynted â phosibl, yn enwedig arbenigedd lleferydd ac iaith.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agweddau sy'n cael eu mabwysiadu gan ymarferwyr. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff bob plentyn fynediad cyfartal i'r meysydd dysgu ac offer. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o bob plentyn a chydnabyddir eu hunigolrwydd yn dda.

Rhoddir pwyslais clir gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd bob blwyddyn, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Darperir ystod eang o adnoddau gan ymarferwyr, ac maent ar gael i bob plentyn. Mae hyn yn hyrwyddo'u hymdeimlad o gyfrifoldeb yn llwyddiannus drwy ddirprwyo gweithgareddau, fel tasgau clirio a gweithgareddau plannu a dyfrhau yn yr ardal awyr agored. Mae gweithgareddau parhaus, ffocws a thasgau cyfoethog yn rhannu adnoddau dysgu yn effeithiol. Caiff eu defnydd gan y plant effaith gadarnhaol ar eu dysgu, yn enwedig wrth wneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a threfnu siapiau yn rhifau ar fyrddau pegiau.

Mae'r adeilad o ansawdd addas; caiff ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal awyr agored ysgogol yn cynnwys cyfleoedd i blant dyfu planhigion yn ogystal â chyfarpar dringo'r ysgol a'r ierdydd mawr ar gyfer chwarae bywiog. Mae'r lleoliad hefyd yn defnyddio'r ardal a pharciau lleol yn synhwyrol ar gyfer ymchwiliadau amgylcheddol, fel dod o hyd i ddail yn yr hydref.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arferion arweinyddiaeth pwrpasol yn cymell ymarferwyr i greu newidiadau mewn ffyrdd cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn hyrwyddo ac yn cynnal datblygiadau yn llwyddiannus. Mae'n defnyddio gwybodaeth berthnasol a rheolaidd ynglŷn â'r lleoliad i sicrhau gwelliannau i'w ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae'n sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgwyliadau uchel gan ymarferwyr o'r hyn y gall plant ei gyflawni. Mae hyn yn darparu cyfeiriad cadarnhaol i arferion dyddiol ac arferion hirdymor y lleoliad.

Mae meysydd presennol i'w datblygu yn cynnwys targedau defnyddiol a osodir yn erbyn graddfeydd amser addas. Maent yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar sicrhau darpariaeth effeithiol ac ar wella deilliannau plant.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol ac yn bwrpasol. Mae system gweithiwr allweddol y lleoliad yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae'n diffinio rolau cyfrifoldeb gwahanol yn glir er mwyn hyrwyddo llwyddiannau yn y lleoliad. Caiff ymarferwyr hyfforddiant perthnasol ac addysgiadol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd darpariaeth. Mae'r arweinydd yn cynnal goruchwyliaethau ac arfarniadau effeithiol o ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor rheoli yn arfarnu gwaith yr arweinydd yn ddigon cadarn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad o ddydd i ddydd gan yr arweinydd ac mewn cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r pwyllgor yn gefnogol ac yn sicrhau rheolaeth ariannol sicr. Mae wedi rhoi lefel briodol o arferion sicrhau ansawdd ar waith. Fodd bynnag, nid yw trylwyrdeb a chadernid ei broses monitro yn herio'r lleoliad yn ddigon da.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu cadarnhaol yn treiddio i waith y lleoliad. Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau plant a'u darpariaeth eu hunain. Mae cydweithio dyddiol effeithiol, ynghyd â chyfarfodydd staff ffurfiol ac anffurfiol, yn cyfrannu'n llwyddiannus at hyn.

Mae systemau hunanarfarnu yn ystyried barnau ymarferwyr, plant, rhieni a gofalwyr a'r awdurdod lleol yn dda. Mae hyn yn fuddiol i'r lleoliad o ran cael darlun llawnach o'r ddarpariaeth fel bod yr adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r prosesau hyn yn nodi cryfderau'r lleoliad yn dda. Mae'r arweinydd yn nodi'r meysydd i'w gwella yn glir yn yr adroddiad hunanarfarnu, ac mae'n defnyddio'r rhain yn uniongyrchol i bennu targedau synhwyrol yng nghynllun datblygu'r lleoliad. O ganlyniad, mae'r arweinydd yn cymryd camau effeithiol i roi newidiadau ar waith trwy gynlluniau gweithredu pwrpasol.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol â'r targedau a nodwyd ar gyfer gwella. Mae'r arweinydd yn gwella'r ddarpariaeth drwy fabwysiadu strategaethau gwahanol ac mae'n derbyn cyngor gwerthfawr gan eraill, fel yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys dynodi gweithwyr allweddol i grwpiau penodol o blant, gwella arferion asesu a mireinio'r systemau cynllunio. Mae'n agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i wella safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth. Caiff y partneriaethau hyn effaith gadarnhaol ar arferion dyddiol y lleoliad, fel defnyddio tir yr ysgol a'r offer awyr agored. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol â staff yn yr ysgol, ac mae hyn yn cynorthwyo trefniadau

pontio'r plant yn effeithlon. Mae trefniadau i drosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.

Cymer ymarferwyr gamau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni a gofalwyr am bob agwedd ar waith y lleoliad. Maent hefyd yn eu hannog i fynegi'u barnau ar faterion i wella'r lleoliad drwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n synhwyrol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn ei gefnogi'n weithredol gyda dogfennau hyfforddi a rheoli defnyddiol.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol gan y lleoliad i gefnogi dysgu'r plant, yn enwedig safle'r castell ac amwynderau lleol, fel y parciau. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn gweithio'n frwdfrydig i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae ymarferwyr yn gweithio ac yn cysylltu gydag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn ceisio gwella pob agwedd ar waith y lleoliad yn gyson drwy reoli staff ac adnoddau'n effeithiol. Gyda hyfforddiant pwrpasol, mae'n llwyddo i sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwys gan y lleoliad. Mae systemau rheoli perfformiad yn effeithiol ar gyfer ymarferwyr. Maent yn eu galluogi i ddatblygu a rhannu'u gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae yno gymuned ddysgu gadarn lle ceir diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn dda, dan do ac yn yr awyr agored, i gefnogi'r dysgu. Mae arferion y lleoliad yn effeithlon ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad rhwydd i ddigon o adnoddau diddorol i gefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant drwy nodi cyfrifoldebau a graddfeydd amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol, sy'n cynnwys diweddaru adnoddau TGCh, datblygu'r ardal awyr agored a chynnal a chadw'r caban. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant, ynghyd â'r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr effaith gadarnhaol ar ddeilliannau plant, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na deg o ymatebion. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd Cofnodol**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Yr Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |